

Gofynnwch am:

Llinell Uniongyrchol:

E-bost:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

02 Chwefror 2022

Annwyl Riant / Gwarcheidiad

Ysgrifennais atoch ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2021 yn nodi y byddai pob ysgol yn Abertawe mewn lefel risg uchel iawn o fis Ionawr 2022. Mae angen imi ddweud wrthyh fod ein hysgolion yn dal i weithredu o fewn y lefel risg uchel iawn yma. Bydd ysgolion yn defnyddio'r mesurau rheoli uchaf posib tan 18 Chwefror, o leiaf. Mae Cymru ar lefel rhybudd sero, ond nid yw ein hysgolion. Yn ystod mis Ionawr gwelsom gyfradd yr achosion Covid ar draws ysgolion Abertawe yn cynyddu o wythnos i wythnos.

Ein blaenoriaeth ar y cyd o hyd yw lleihau'r amhariad ar addysg a sicrhau, lle bo'n bosibl, bod dysgwyr yn parhau i dderbyn dysgu wyneb i wyneb. Mae amddiffyn staff a dysgwyr ysgol hefyd yn brif flaenoriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni wneud penderfyniadau lleol o 11 Chwefror 2022. Bydd penderfyniadau a wneir ar ddefnyddio llai o fesurau rheoli ar draws ysgolion Abertawe yn cael eu gwneud ar y cyd â chyngor arbenigol gan ein bwrdd iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ein swyddogion iechyd cyhoeddus ac ysgolion. Gwyddom fod angen inni fod yn ofalus o hyd yn Abertawe a byddaf yn siarad ag ysgolion am y mesurau rheoli a ddefnyddiwn ar ôl hanner tymor fel ein bod i gyd yn glir ynghylch yr hyn y mae angen inni ei wneud.

Gofynnwn unwaith eto am eich cefnogaeth i gadw ein hysgolion yn ddiogel ac yn agored cymaint â phosibl. Mae absenoldeb sylweddol o staff wedi effeithio ar lawer o'n hysgolion yn ystod mis Ionawr ac rydym wedi gorfod cynllunio pethau'n wahanol mewn rhai ysgolion i gadw ar agor.

Profion Llif Unffordd a Hunanynysu

Cynghorir yr holl staff a dysgwyr oed uwchradd i gymryd LFT dair gwaith yr wythnos a rhoi gwybod am y canlyniadau, boed yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n ddi-rym ar gov.uk neu drwy ffonio 119. Mae'n golygu bod achosion newydd yn cael eu nodi ac rydym yn deall sut mae'r profion yn cael eu defnyddio.

Os oes gennych chi symptomau COVID-19, dylech hunanynysu a threfnu prawf PCR cyn gynted â phosibl. Os ydych wedi profi'n bositif am COVID-19, rhaid i chi hunanynysu a dilyn y canllawiau.

Dylech wneud prawf llif unffordd (LFT) ar ddiwrnod 5 eich cyfnod o hunanynysu ac ail brawf llif unffordd y diwrnod wedyn (dylech ei gymryd 12 i 24 awr ar ôl y prawf cyntaf). Bydd hyn yn helpu i ganfod a ydych yn parhau i fod yn heintus ac y gallech drosglwyddo COVID-19 i eraill.

Ni ddylech wneud prawf llif unffordd cyn diwrnod 5 o'ch cyfnod hunanynysu oherwydd mae'r risg o barhau i fod yn heintus a'r posibilrwydd o drosglwyddo'r feirws i eraill cyn y cyfnod hwn yn sylweddol uwch.

Cewch roi'r gorau i hunanynysu ar ôl 5 diwrnod llawn (ar ddiwrnod 6 eich cyfnod hunanynysu). Os ydych yn cael canlyniad prawf positif, dylech barhau i hunanynysu hyd nes y byddwch wedi cael prawf llif unffordd negatif ar ddau ddiwrnod yn olynol, neu tan ddiwrnod 10, pa un bynnag ddaw gyntaf.

Nid oes rhaid ichi gael prawf llif unffordd negatif ar ddiwrnod 10 i roi'r gorau i hunanynysu. Os oes gennych dymheredd o hyd, dylech barhau i hunanynysu hyd nes bydd eich tymheredd yn normal.

Os ydych wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif am COVID-19, ac eich bod yn blentyn neu wedi eich brechu'n llawn, dylech gymryd prawf llif unffordd bob dydd, oni bai eich bod yn methu â gwneud hyn am resymau meddygol, am 7 diwrnod neu tan 10 diwrnod ers eich cysylltiad diwethaf â'r person a brofodd yn bositif am COVID-19, os yw hyn yn gynharach. Cymryd y prawf dyddiol hwn cyn i chi adael y tŷ am y tro cyntaf y diwrnod hwnnw. Os nad ydych wedi'ch brechu'n llawn, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i chi hunanynysu fel cyswllt agos am 10 diwrnod llawn.

Gorchuddion Wyneb

Dylai'r holl staff a dysgwyr oed uwchradd barhau i ddefnyddio gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cymunedol ac ystafelloedd dosbarth lle na ellir cadw pellter corfforol yn ogystal ag ar gludiant ysgol.

Yn olaf, a gaf i ddiolch i chi i gyd yn bersonol unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus i'n hysgolion yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn hanner tymor heriol arall.

Cofion



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg